

Cyfoeth Naturiol Cymru: Ein Datganiad Cyfranogiad Cyhoeddus Rheoleiddiol



Cynnwys

1. Beth yw'r datganiad hwn?	3
2. Sut rydym ni'n gwneud ein penderfyniadau?	3
3. Ydy hawlenni a thrwyddedau yr un fath â chaniatâd cynllunio?	3
4. Beth yw ein cylch rheoleiddio?	4
5. Pryd rydym ni'n ymgynghori?	5
6. Sut rydym yn rheoli ceisiadau o Ddiddordeb Cyhoeddus Sylweddol?	7
7. Sut gallwch chi ymateb i ymgynghoriad?	8
8. Pwy arall rydym ni'n ymgynghori â nhw?	8
9. Sut rydym ni'n rhoi cyhoeddusrwydd i'n penderfyniadau terfynol?	9
10. Sut rydym ni'n ymgynghori ar Drwyddedau Rheolau Safonol newydd? ..	9
11. Sut rydym yn dilyn y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) gydag ymatebion ymgynghori?	10

1. Beth yw'r datganiad hwn?

Mae'r Datganiad yn esbonio:

- pryd a sut byddwn ni'n ymgynghori â chi yn ystod ein prosesau penderfynu ar hawlenni a thrwyddedau
- beth allwn ni ei ystyried a ddim ei ystyried yn gyfreithiol
- sut gallwch chi ymateb i'n hymgyngoriadau
- gwybodaeth arall a all fod o fudd i chi am ein prosesau ymgynghori

2. Sut rydym ni'n gwneud ein penderfyniadau?

Mae ein penderfyniadau o ran cyflwyno neu wrthod hawlen neu drwydded wedi'u diffinio gan ofynion cyfreithiol. Mae'n ofynnol inni gyfiawnhau ein penderfyniadau o fewn terfynau'r cyfyngiadau cyfreithiol hyn.

Mae ein hawlenni, trwyddedau a chaniatadau yn cynnwys amodau i warchod yr amgylchedd a phobl. Rydym yn gosod cyfyngiadau a therfynau ar weithgareddau sydd angen eu rheoli a, lle bo'r angen, yn monitro allyriadau i'r aer, dŵr a thir. O ran Trwyddedu Morol, rhaid inni hefyd ystyried yr effaith ar fordwyaeth a'r effaith bosib ar ddefnydd dilys o'r môr.

Yn gyfreithlon, mae'n rhaid inni gyflwyno hawlen neu drwydded os yw'r ceisydd yn gallu dangos ei fod wedi bodloni'r holl ofynion cyfreithiol. Ni allwn wrthod hawlen neu drwydded yn gyfreithiol, dim ond oherwydd gwrthwynebiad lleol i'r gweithgarwch.

3. Ydy hawlenni a thrwyddedau yr un fath â chaniatâd cynllunio?

Yn syml, nac ydy. Mae ein gwaith a'n penderfyniadau ni ar wahân i'r broses gynllunio. Efallai fod Trwyddedu Morol yn ymddangos yn debyg mewn rhai ffyrdd i ganiatâd cynllunio, ond maen nhw'n dal yn brosesau a chaniatadau ar wahân ac yn annibynnol.

Yn aml, bydd angen i'r sawl sy'n gwneud cais gael hawlen neu drwydded gennym ni a chaniatâd cynllunio gan yr Awdurdod Lleol i weithredu (ac efallai y bydd yr Awdurdod Lleol yn cysylltu â ni fel ymgynghorai) ond mae modd gwneud cais amdanynt a'u cyflwyno y naill heb y llall; a dyw cael y naill ddim o reidrwydd yn golygu y bydd y llall hefyd yn cael ei gyflwyno neu ei ganiatáu.

Caniatáu a Chynllunio – pwy sy'n gwneud beth?

Ceisiadau trwyddedau amgylcheddol, adnoddau dŵr, perygl llifogydd a choedwigaeth

Mae ein penderfyniadau trwyddedu yn ystyried cynllun a gweithrediadau prosesau, er mwyn atal llygredd a lleihau'r effeithiau ar yr amgylchedd ac ar iechyd pobl

Trwyddedu Morol

Mae angen i'n penderfyniadau trwyddedu morol ystyried:

- yr angen i warchod yr amgylchedd
 - yr angen i warchod iechyd pobl
 - yr angen i atal ymyrryd â defnydd cyfreithlon o'r môr
 - yn achos cais am drwydded i ganiatáu gwaith adeiladu, addasu neu wella o fewn ardal drwyddedu
- forol y DU, effeithiau unrhyw ddefnydd bwriadol o'r gwaith dan sylw wrth ei adeiladu, addasu neu wella
- unrhyw sylwadau a gafwyd gan unigolyn â diddordeb neu fuddiant yng nghanlyniad y cais ac unrhyw faterion eraill y cred sy'n berthnasol.

I wneud hyn, rydym fel arfer yn ystyried materion fel lleoliad, technoleg, manylion y gwaith arfaethedig, y dulliau adeiladu a'r deunyddiau i'w defnyddio.

Cynllunio


Mae'r broses gynllunio yn penderfynu a yw'r cyfleuster yn y lleoliad cywir, h.y. defnydd derbyniol o'r tir; ac yn ystyried y materion ehangach sy'n gysylltiedig â'r datblygiad fel yr effaith weledol, traffig a mynediad.

4. Beth yw ein cylch rheoleiddio?


Rydym yn derbyn sylwadau ar faterion nad ydynt yn rhan o'n cylch gwaith cyfreithiol yn aml. Mae hyn yn golygu na allwn ganiatáu'n gyfreithlon i'r sylwadau hynny ddylanwadu ar ein penderfyniad.

Rydym wedi rhestru rhai o'r materion mwyaf cyffredin a dderbyniwn sylwadau isod ac a ydynt o fewn ein cylch gwaith ✓ ai peidio ✗.

Trwyddedu Morol



Ceisiadau trwyddedau amgylcheddol, adnoddau dŵr, perygl llifogydd a choedwigaeth



5. Pryd rydym ni'n ymgynghori?

O dan y gyfraith, mae'n ofynnol i ni ymgynghori ar geisiadau am hawlenni a thrwyddedau newydd pwrpasol ar gyfer y canlynol:

- Gosodiadau
- Cyfleusterau gwastraff (a rhai sy'n cynnwys gweithgareddau gwastraff mwyngloddio)
- Ansawdd dŵr
- Adnoddau dŵr (noder: mae gennym ni'r grym i atal gofynion ymgynghori ar gyfer rhai ceisiadau)
- Gweithgareddau sylweddau ymbelydrol (ac eithrio ffynonellau dan sêl)
- Gweithgareddau gweithfeydd hylosgi canolog
- Ceisiadau amrywiad sylweddol

- Ceisiadau (cwmpo) coed sydd angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol
- Ceisiadau am drwydded gweithgareddau perygl llifogydd sydd angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol
- Ceisiadau am drwydded forol
- Unrhyw gais rydym yn ei ystyried yn un o ddiddordeb cyhoeddus sylweddol (boed yna ofyniad cyfreithiol i wneud hynny ai peidio)

Nid yw'n ofynnol inni gynnal ymgynghoriad fel rhan o'r broses o benderfynu ar Drwyddedau Gweithgarwch Perygl Llifogydd a Thrwyddedau Rhywogaethau, dan y gyfraith. Ond efallai y byddwn yn dewis ymgynghori ar geisiadau ar gyfer y rhain os teimlwn eu bod o ddiddordeb sylweddol i'r cyhoedd.

Hefyd, nid ydym yn ymgynghori ar Geisiadau am Drwyddedau Rheolau Safonol neu unrhyw rannau o'r cais sy'n fasnachol-gyfrinachol neu'n cynnwys manylion am reolaethau diogelwch gwladol.

Sut mae ymgynghoriadau'n rhan o'n proses benderfynu

Rydym yn ymgynghori am gyfnodau penodol yn ystod ein prosesau penderfynu rheoleiddiol er mwyn rhoi cyfle i bobl a sefydliadau anfon sylwadau.



Rydym yn derbyn Cais

Rydym yn cynnal rhywfaint o archwiliadau sylfaenol i'r cais er mwyn penderfynu a yw'n cynnwys digon o wybodaeth a bod y ffi gywir wedi'i thalu. Rydym yn galw hwn yn gam 'a wnaed yn briodol'. Nid ydym yn gwneud asesiad technegol o'r cais ar hyn o bryd.



Asesiad a Phenderfyniad Technegol (gellir cynnal hwn ochr yn ochr â'r cyfnod ymgynghori)

Rydym yn ystyried yr holl sylwadau perthnasol sy'n dod i law yn ystod cam ymgynghori ein proses benderfynu.

Gallwn ofyn am fwy o wybodaeth gan y ceisydd yn sgil sylwadau neu gwestiynau a gawsom yn ystod ymgynghoriad os ydynt berthnasol i'n penderfyniad.



Ceisiadau sydd angen ymgynghori arnynt

Ceisiadau EPR, Adnoddau Dŵr, Perygl Llifogydd a Trwyddedu Morol

Rydym yn hysbysebu'r cais yn adran 'Ceisiadau, ymgynghoriadau a phenderfyniadau ynghylch trwyddedau' o'n gwefan am 20 diwrnod gwaith, o fewn 30 diwrnod i'r dyddiad a 'wnaed yn briodol' neu o fewn 30 diwrnod i'w neilltuo i swyddog yn achos Trwyddedu Morol.

Choedwigaeth

Mae pob dogfen gais ar gael ar y gofrestr gyhoeddus am 28 diwrnod ar gyfer sylwadau.

Yn achos **Trwyddedau Adnoddau Dŵr**, mae'n ofynnol arnom i gyhoeddi hysbysiad papur newydd lleol hefyd.

Ar gyfer rhai ceisiadau rydym yn hysbysebu penderfyniad 'Minded to' ar ein gwefan am 20 diwrnod gwaith – dim ond ar gyfer ceisiadau sy'n cynnwys Cyfarwydddeb Allyriadau Diwydiannol fel arfer.

Rydym yn gwneud ein penderfyniad terfynol. Bydd y canlyniad yn ymddangos ar ein gwefan. Mae'r holl ddogfennau sy'n gysylltiedig â'r cais a'r penderfyniad ar gael trwy ein cofrestr cyhoeddus ar-lein



6. Sut rydym yn rheoli ceisiadau o Ddiddordeb Cyhoeddus Sylweddol?

Os ydym o'r farn bod, neu y bydd, cryn dipyn o ddiddordeb cyhoeddus mewn rhai ceisiadau penodol, efallai y byddai'n briodol cymryd camau pellach i sicrhau bod gan bawb gyfle teg i ymateb. Ceisiadau o Ddiddordeb Cyhoeddus Sylweddol ("High Public Interest" neu HPI) yw'r rhain.

Gall cais gael ei gofrestru fel un HPI ar unrhyw gam o'n proses benderfyniadau

Rydym bob amser yn gwneud ein gorau glas i benderfynu cyn gynted â phosib, yn seiliedig ar yr adborth a gawn – er y gallai hyn fod yn ystod trafodaethau cyn-ymgeisio, unwaith i'r cais gyrraedd, neu ar unrhyw gam yn ystod ein proses benderfynu.

Dewisiadau ychwanegol ar gyfer Ceisiadau HPI

Ein nod yw dewis yr opsiynau mwyaf gwerthfawr i bawb a sicrhau gwerth am arian; egwyddor y mae'n rhaid inni ei dilyn fel sefydliad gwasanaeth cyhoeddus wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru.

Nid ydym yn cyflawni unrhyw un o'r canlynol yn awtomatig ar gyfer pob cais HPI, ond rydym yn penderfynu fesul achos.

Isod, ceir enghreifftiau o rai o'r opsiynau mwyaf cyffredin y gallem eu hystyried (ond nid yw'n rhestr gyflawn). Yna, rydym yn penderfynu a ydynt yn addas ar sail amgylchiadau lleol.

Enghreifftiau o opsiynau ychwanegol

Ystyried ymestyn y cyfnod ymgynghori y tu hwnt i 20 diwrnod gwaith



Hysbysebu'n ehangach e.e. mewn papurau newydd lleol, taflenni, datganiadau i'r



Ymgynghoriad ychwanegol ar yr hawlen ddrafft



Mwy o sylw ar gyfryngau cymdeithasol CNC



Mwy o ymgysylltu cymunedol e.e. sesiynau galw heibio mewn canolfannau lleol



Ymgysylltu â chynrychiolwyr gwleidyddol neu arweinwyr cymunedol.



7. Sut gallwch chi ymateb i ymgynghoriad?

Y ffordd hawsaf yw trwy ddefnyddio ein ffurflen ymateb i ymgynghoriad ar-lein. Gallwch wneud hyn trwy glicio ar y botwm 'Ymateb nawr / Respond now' yn ein hysbysiad ar ein tudalen ymgynghori; neu ar gyfer Trwyddedu Morol, mae'r ffurflen ymateb ar gael ar ein tudalen 'Ymgynghoriadau cyfredol – Ceisiadau am Drwyddedau Morol'.

Neu, gallwch lawrlwytho fersiwn Word o'r dudalen ymateb i ymgynghoriad o'r un gwefannau, a naill ai ei llenwi'n electronig wedyn neu ei hargraffu a'i llenwi â llaw. Yna, gallwch ei dychwelyd atom drwy'r manylion isod.

E-bost: permittingconsultations@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Post: Ymateb i Ymgynghoriad, Gwasanaeth Trwyddedu, Cyfoeth Naturiol Cymru, Tŷ Cambria, 29 Ffordd Casnewydd, Caerdydd, CF24 0TP

Rhaid i'r holl sylwadau gyrraedd cyn diwedd y cyfnod ymgynghori

Ar gyfer ceisiadau Coedwigaeth, anfonwch eich sylwadau drwy e-bost at:

fellinglicence@naturalresourceswales.gov.uk o fewn y cyfnod ymgynghori 28 diwrnod.

Mae croeso i chi ysgrifennu atom neu anfon e-bost gan ddefnyddio'r manylion uchod os nad ydych chi am ddefnyddio'r ffurflen ymateb – er mai'r ffurflen ar-lein yw'r ffordd gyflymaf a'r ffordd sydd orau gennym.

Cofiwch gynnwys cyfeirnod y cais, enw'r ceisydd a chyfeiriad y safle yn y pennawd, er mwyn ei gwneud hi'n haws inni nodi i ba gais rydych chi'n ymateb iddo ac er mwyn ei drosglwyddo i'r tîm cywir.

Byddwch bob amser yn derbyn cydnabyddiaeth i unrhyw ymatebion ymgynghori a gawn ni. Nid ydym yn ymateb yn unigol i bob sylw fodd bynnag.

Nid oes unrhyw sylwadau sy'n cael eu gwneud ar ein platfformau cyfryngau cymdeithasol yn cael eu hystyried yn ymatebion ffurfiol i ymgynghoriad. Dim ond sylwadau sy'n cyrraedd drwy'r dulliau uchod fydd yn cael eu cydnabod a'u hystyried.

8. Pwy arall rydym ni'n ymgynghori â nhw?

Rydym yn gweithio gyda sawl sefydliad a chorff arbenigol er mwyn cael barn a sylwadau ar warchod iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd. Rydym yn cydweithio'n agos â nhw i fynd i'r afael â phryderon cyhoeddus ac yn ystyried eu cyngor arbenigol wrth wneud ein penderfyniad.

Dyma restr o'r cyrff allanol rydym yn ymgynghori â nhw'n rheolaidd (nid yw'n rhestr gyflawn – efallai y byddwn yn ymgynghori ag eraill hefyd).

- Iechyd Anifeiliaid
- CADW
- Glandŵr Cymru
- Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu (CEFAS)
- Siambr Môr gludo

- Awdurdod Hedfan Sifil
- Conffederasiwn Diwydiannau Coedwigaeth (Confor)
- Asiantaeth yr Amgylchedd
- Undeb Amaethwyr Cymru
- Asiantaeth Safonau Bwyd
- Awdurdod Harbwr
- Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
- Byrddau draenio mewnol
- Awdurdod Lleol – Cynllunio
- Gwasanaeth Tân ac Achub Lleol
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Lleol
- Pwyllgor Pysgodfeydd y Môr Lleol
- Awdurdod Porthladdoedd Lleol
- Cwmni carthffosiaeth / dŵr lleol
- Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau
- Awdurdod Cynllunio Mwynol (Cyngor Sir)
- National Farmers Union
- National Grid
- Natural England
- Awdurdodau mordwyo
- OFCOM
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB)
- The National Federation of Fishermen's Organisations
- Water UK
- Llywodraeth Cymru

9. Sut rydym ni'n rhoi cyhoeddusrwydd i'n penderfyniadau terfynol?

Ar gyfer ceisiadau EPR, Trwyddedu Morol a Pherygl Llifogydd rydym yn cynhyrchu Dogfen Penderfyniad (neu ffurflen ymgynghori fewnol ar gyfer Perygl Llifogydd). Mae'n cynnwys manylion am ein proses benderfyniadau a sut rydym wedi ystyried yr holl sylwadau perthnasol. Dyma gyfle i chi weld sut cafodd eich sylwadau eu hystyried. Rydym yn rhoi gwybod i gwsmeriaid am ein penderfyniadau ar hawlenni a thrwyddedu ar ein gwefan, ac mae'r holl ddogfennau sy'n ymwneud â'r penderfyniad ar gael ar ein cofrestr gyhoeddus ar-lein.

O ran ceisiadau Adnoddau Dŵr, rydym yn cadw cofnod o'n penderfyniad mewn adroddiad penderfynu. Yn achos ceisiadau Adnoddau Dŵr sy'n cael eu hystyried yn rhai o ddi-ddordeb cyhoeddus sylweddol (HPI) neu sy'n cael eu gwrthod, rydym hefyd yn cyhoeddi datganiad penderfyniad ar ein gwefan.

Noder: Os rydym ni'n derbyn lluo o sylwadau ar yr un pwnc, efallai y byddwn yn eu grwpio gyda'i gilydd mewn dogfen benderfyniad fel crynodeb. Fodd bynnag, bydd pob ymateb unigol i'r ymgynghoriad yn cael ei gadw ar ein system.

10. Sut rydym ni'n ymgynghori ar Drwyddedau Rheolau Safonol newydd?

Rydym yn cynnig Trwyddedau Rheolau Safonol ar gyfer pob math o weithgareddau. Mae'r rhain yn cynnwys amodau penodol gan gynnwys meini prawf lleoliad llym, a rhaid cynnal gweithgareddau yn unol â'r asesiad risg cyffredinol ar gyfer y cyfryw weithgaredd.

Rydym yn ymgynghori ar bob trwydded rheolau safonol newydd ddrafft, a'i hasesiadau risg cyfatebol, cyn creu a chyhoeddi'r fersiwn derfynol.

Sut rydym yn ymgynghori ar y rheolau safonol newydd a'r asesiadau risg



Rydym yn nodi'r sefydliadau a all fod â diddordeb yn y Drwydded Rheolau Safonol e.e. grwpiau diwydiant ac undebau.

Rydym yn trafod y gwaith gyda nhw ac yn datblygu fersiwn ddrafft gychwynnol o'r Drwydded Rheolau Safonol ac Aseiad Risg o'r gweithgarwch



Yna, rydym yn rhannu'r dogfennau drafft ar ein gwefan er mwyn ymgynghori arnynt, ac yn gwahodd sylwadau gan aelodau'r cyhoedd ac unrhyw sefydliad â diddordeb. Gall hyd y cyfnod ymgynghori amrywio yn ôl cymhlethdod a lefel y diddordeb yn y rheol benodol honno. Rydym yn rhoi gwybod i bobl am yr ymgynghoriad drwy'n gwefan a'n cyfrifon cyfryngau cymdeithasol a eithiau'n uniongyrchol trwy e-bost.

Rydym yn adolygu'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedyn, yn paratoi'r dogfennau terfynol ac yn paratoi unrhyw ganllawiau ategol i'w cyhoeddi yn unol â'r rheol a'r aseiad risg.



Yn olaf, rydym yn cyhoeddi'r Drwydded Rheolau Safonol a'i Hasesiad Risg ar ein gwefan. Mae'r set rheolau bellach yn 'fyw' ac mae modd gwneud cais amdani.

Noder: Rydym yn defnyddio dull tebyg pan rydym ni am ddiwygio neu ddirymu set o reolau safonol – er mai dim ond am hyd at 28 diwrnod mae'r cyfnod ymgynghori'n para fel arfer – ac rydym yn ysgrifennu at weithredwyr a sefydliadau neu unigolion eraill â thrwyddedau a gaiff eu heffeithio gan y newid arfaethedig.

11. Sut rydym yn dilyn y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) gydag ymatebion ymgynghori?

Pan gawn ni ymateb gan unigolyn, mae'n cael ei storio ar ein system ond nid yw ar gael yn awtomatig ar ein cofrestr gyhoeddus ar-lein. Rydym yn gwneud hyn er mwyn diogelu gwybodaeth bersonol y sawl sy'n gwneud sylwadau.

Efallai y bydd cynnwys yr ymateb ar gael trwy Gais am Wybodaeth swyddogol. Os bydd hyn yn digwydd, byddwn yn sicrhau bod yr holl wybodaeth bersonol, fel enw a chyfeiriad, yn cael ei golygu cyn darparu gwybodaeth mewn ymateb i'r cais.